WGOS

# Cylchlythyr

5ed Argraffiad, Medi 2023

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Croeso

Bydd y **Cylchlythyrau WGOS** yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd... ***rydym yma i'ch cefnogi chi***

Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd Cylchlythyr #5 yn canolbwyntio ar y canlynol: WGOS Symudol

Mae darpariaeth gwasanaeth optometreg craidd GIG Cymru yn gofyn am gyflawni WGOS 1 a WGOS 2 ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Mae gwasanaethau WGOS 1 yn debyg i'r prawf golwg Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS) presennol gydag elfennau ychwanegol yn cynnwys atal a chyngor llesiant ynghyd â chynlluniau rheoli cleifion. Mae gwasanaethau WGOS 2 yn cyd-fynd â gwasanaethau presennol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW).

O ganol mis Hydref 2023, fel rhan o ddiwygiadau optometreg Llywodraeth Cymru, bydd yn ofynnol i bob contractwr sy'n darparu, neu'n dymuno darparu WGOS 1 a 2 (gan gynnwys cyflenwi GIG) mewn lleoliadau symudol (yn y cartref), hyd yn oed os yw hyn yn anaml iawn, gael Cytundeb Gwasanaeth Symudol gyda phob Bwrdd Iechyd y maent yn dymuno darparu gwasanaethau symudol ynddo.

Un o ofynion cael Cytundeb Gwasanaeth Symudol yw bod y Practis yn gallu dangos ei fod yn gallu bodloni gofynion presennol EHEW, sy'n cynnwys cael mynediad at safon ofynnol o offer y gellir eu defnyddio mewn lleoliad symudol. Cyflawnir hyn trwy lenwi ffurflen gais Hunanasesu'r Practis.

Mae'n ofynnol i gontractwyr sy'n dymuno darparu gwasanaethau symudol ar ôl canol mis Hydref 2023 gwblhau a dychwelyd y ffurfleni



i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) erbyn 30 Medi 2023.

Os yw eich Practis yn dymuno darparu WGOS mewn lleoliad symudol, ond nad yw'n gallu bodloni'r gofynion hyn, rydym yn eich annog i barhau i gyflwyno'ch ffurflen yn amlinellu eich sefyllfa cyn gynted â phosibl, fel y gall PCGC gysylltu â'r Byrddau Iechyd ac Optometreg Cymru i ganfod datrysiad i chi a'ch cleifion.

Dylai contractwyr sy'n cynnig gwasanaeth symudol ar hyn o bryd, nad ydynt yn dymuno parhau ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym, hysbysu'r Byrddau Iechyd perthnasol trwy PCGC: nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk

Bydd contractwyr sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau symudol nad ydynt yn dychwelyd ffurflen yn cael eu tynnu oddi ar adran symudol y rhestr offthalmig o ganol mis Hydref ac ni fyddant yn gallu darparu gwasanaeth WGOS symudol.

# Cwestiynau allweddol

**?** Ydw i'n gontractwr sy'n darparu gwasanaethau symudol o bractis neu'n gwbl symudol?

- Os '**Ydw**': yw eich ateb, gweithredwch nawr: Lawrlwythwch a chwblhewch y ffurflen(ni) perthnasol
- Os '**Nac Ydw**': yw eich ateb i'r cwestiwn uchod, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

# Crynodeb

## Beth?

Mae angen Cytundeb Gwasanaeth Symudol gan bob contractwr sy'n dymuno darparu gwasanaeth WGOS symudol.

## Sut?

Lawrlwythwch ffurflen(ni) gais Hunanasesu'r Practis:
WGOS Cylchlythyr - NHS Wales

## Pryd?

Cyn gynted â phosibl, gall y broses gymryd wythnosau! Nid oes angen llenwi'r ffurflen yn llawn ar adeg ei chyflwyno gyntaf. Gall PCGC weithio gyda chi tuag at ei chwblhau trwy rannu templedi neu eich cyfeirio at adnoddau eraill.

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'r ffurflen gais a'r broses, cysylltwch â PCGC trwy anfon e-bost i: nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk

Os oes gennych ymholiadau ynghylch achrediad EHEW a hyfforddiant gorfodol WGOS, cysylltwch ag AaGIC trwy anfon e-bost i: heiw.optometry@wales.nhs.uk

Os oes gennych ymholiadau ynghylch gofynion offer y gwasanaeth symudol, anfonwch e-bost i: sharonbeatty@optometrywales.com



# Cadwch mewn cysylltiad!

Optometreg Cymru (OW) yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor. E-bost: Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.




Gellir dod o hyd i ddiweddariadau blaenorol yn: https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/gweithwyr-proffesiynol/newyddion-diweddaraf-i-weithwyr-proffesiynol/cylchlythyrau-wgos/

